**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**187- Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020**
*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 15 Hydref 2020*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydy |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 69 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | SICM(5)35 |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Crynodeb**

Diben y Rheoliadau 2020 hyn yw amddiffyn bioddiogelwch a chefnogi masnach drwy sicrhau bod rheolaethau ffytoiechydol effeithiol yn parhau i weithredu o fewn Prydain Fawr a rhwng Prydain Fawr a'r UE ar ddiwedd y Cyfnod Pontio ar 31 Rhagfyr 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn adlewyrchu Protocol Iwerddon – Gogledd Iwerddon.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 19 Hydref 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Rydym yn nodi bod y Rheoliadau yn creu swyddogaethau y gall Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU eu harfer ar yr un pryd. Os yw'r Senedd yn dymuno dileu elfen Gweinidog y DU o swyddogaeth gydredol, yna byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU gydsynio i'w dileu. I'r graddau hynny, mae'r Rheoliadau'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Fodd bynnag, nodwn hefyd fod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch gorchymyn adran 109 (h.y. Gorchymyn yn y Cyngor a wnaed o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Byddai gorchymyn o'r fath yn negyddu'r effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd drwy ddileu'r angen am gydsyniad Llywodraeth y DU mewn perthynas â swyddogaethau cydamserol.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nodwn y bydd y polisi rheolaethau iechyd planhigion sy'n seiliedig ar risg sy'n berthnasol o dan gyfraith yr UE yn parhau, ond y bydd gweithredu'r polisi hwnnw ym Mhrydain Fawr (yn hytrach nag o fewn yr Undeb Ewropeaidd) yn arwain at ganolbwyntio ar risgiau ym Mhrydain Fawr (yn hytrach na risgiau yn yr Undeb Ewropeaidd).

**Cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10**

Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron y Senedd ar 22 Hydref 2020, ar y sail mai un o'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau yw diwygiad i ddeddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (yn yr achos hwn, adrannau 2(1) a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967).

Mewn llythyr at y Pwyllgor, dyddiedig 22 Hydref 2020, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig fod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol wedi'i osod, ond ni soniodd ynghylch a fyddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig i drafod y Memorandwm.